# Cyngor Cymuned Tudweiliog
## Tudweiliog Community Council

Heulwen Williams
Clerc/clerk
01758 770415

Pen Cefn,
Dinas,
Pwllheli.
LL53 8UB

Cofnodion Cyngor Cymuned Tudweiliog a gynhaliwyd yn y Ganolfan Nos Lun 10fed Rhagfyr 2018

Presennol: Sian Parri, John Davies, Gareth Jones, Alan Hughes, Medwyn Jones, Seimon Glyn.

1. Cadeiriwyd gan Sian Parri ac estynnodd groeso i bawb.

2. Derbyniwyd y cofnodion diwethaf fel rhai cywir.

3. **Materion yn codi o'r cofnodion**:
   a. Derbyniodd y Clerc mantolen Mynwent Rehoborth, oherwydd fod sefyllfa ariannol y fynwent/Capel yn iach penderfynwyd cyfrannu ond £20.00 eleni.

4. **Gohebiaethau**:
   a. Derbyniwyd anfoneb gan Swyddfa Archwilio Cymru am £338.25 – pasiwyd i'w dalu.
   b. Derbyniwyd llythyr gan Llywodraeth Cymru yn datgan fod Deddf Llywodraeth Leol 1972 Gwariant Adran 137 ar gyfer 2019-20 wedi codi i £8.12 am bod etholwr.
   c. Derbyniwyd wahoddiad I weithdy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfoodol – BGC lleol. Gan fod dyddiad y gweithdy wedi pasio, gofynnwyd i'r Clerc gysylltu hefo'r trefnydd er mwyn derbyn ychwaneg o wybodaeth. Os ddim yn cael ymateb, yna cysyllty ac Un Llais Cymru.
   ch. Derbyniwyd wahoddiad i noson Wobrwyo Pentrefi Sir Caernarfon – Ymgyrch Diogleu Cymru Wledig, ond roedd Dyddiad y digwyddiad wedi pasio ers 5ed o Ragfyr.

d. Derbynwyd daflen gan 'Gwasanaeth Tai Cyngor Gwynedd' yn datgan eu bod yn awyddus i ail edrych ar y Polisi Gosos Tai Gyffredin Gwynedd, a bod angen barn y Cyngor Cymuned cyn mabwysiadu'r polisi newydd. Mewn egwyddog roedd pawb yn falch o'r newid, ond dymunai Cyngor Cymuned Tudweiliog weld fod mwy o ystyriaeth a phwyslais yn cael ei roi ar angen lleol, a bod y Clerc i adrodd y farn yma I'r Adran Tai.

dd. Derbyniwyd llythyr gan Ieuan Wyn Ysgrifennydd Cylch yr Iaith yn gofyn am gefnogaeth I al war Gwasanaethau Addysg Cyngor Gwynedd i roi heibio'r bwriad o ail strwythuro'r Canolfannau Iaith y Sir.
Y Clerc i anfon ebost at Garem Jackson yn datgan ein gwrthwynebiad.

e. Cafwyd llythyr o HSBC yn datgan eu bod yn gwrthod y cais o newid llofnod y ddwy Glerc. Bydd rhaid creu mandad newydd. Bydd y Clerc yn trefnu hyn.

f. Derbyniwyd llythyr gan Meryl Davies, Nyffryn, Dinas yn datgan ei phryder ynglyn a cyflwr lon rhwng Dinas a Tudweiliog, pasiwyd I'r Clerc anfon llythyr at yr adran Ffyrdd.

ff. Praesept 2019/20 – rhossoss y Clerc amcan gyfrif o gostau y Cyngor dros y flwyddyn nesaf (gweler y tabl) ac o ystyried hyn penderfynwyd y dylid codi'r praesept eleni. Pasiwyd i'w godi I £7000.00 gyda'r opsiwn o'i godi yn uwch ar ol cael cyfle i ystyried dros y mis nesaf – bydd angen dod i benderfyniad erbyn cyfarfod mis Ionawr.

5. **Unrhyw fater arall**:
    a. Gwefan y Cyngor Cymuned. Dywedodd y Cadeirydd Sian Parri fod costau o £100.00 i'w dalu'n flynyddol am y Gwefan ac y bydd y angen i'r Clerc ei diweddaru ar ol derbyn canllawiau. O ystyried hyn pasiwyd y dylid prynu gliniadur newydd i'r Clerc.
    b. Bydd angen i'r Clerc gael cyfeiriadau ebost y Cynghorwyr gan y byddai hyn yn ffordd effeithiol o gysylltu a phawb.
    c. Cafwyd ar ddeall fod gwter lon o flaen y Nant, Penllech wedi cau, golyga hyn fod dwr o'r ffordd yn llifo i'r ty. Bydd angen i'r Clerc wybyddu'r adran Ffyrdd yn syth drwy roi galwad ffon idd

**Cynhelir Cyfarfod Nesaf ar 14eg Ionawr 2019 yng Nghanolfan Tudweiliog am 7.15 o'r gloch.**